O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 3219 (Cy. 321)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A477 (Broadmoor i Redberth, Sir Benfro) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2012

Gwnaed	*27 Rhagfyr 2012*
Yn dod i rym	*7 Ionawr 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Sanclêr – Doc Penfro (yr A477) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 7 Ionawr 2013 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A477 (Broadmoor i Redberth, Sir Benfro) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2012.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 00:01 ar 7 Ionawr 2013 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn derfynol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn o gefnffordd yr A477 yn Sir Benfro sy'n ymestyn o bwynt 295 o fetrau i'r gorllewin o